

DATGANIAD O FWRIAD

Cynyddu graddau, ansawdd ac effaith gweithredu gwirfoddol ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful drwy gefnogi, cynrychioli a chynorthwyo sefydliadau'r Trydydd Sector a gwirfoddoli.

Creu newid drwy wella llesiant unigolion, sefydliadau a chymunedau.

GWELEDIGAETH

- Bod yn ganolbwynt rhagoriaeth ym Merthyr Tudful o ran darparu gwasanaethau i sefydliadau ac unigolion sy'n ymwneud â'r Trydydd Sector a gwirfoddoli.
- Creu cymuned iach drwy helpu i ddatblygu sefydliadau i ddiwallu eu hanghenion, gwneud y mwyaf o gyfleoedd gwirfoddoli a rhannu ein gweledigaeth gyda'r holl randdeiliaid.



**VOLUNTARY ACTION
MERTHYR TYDFIL
GWEITHREDU GWIRFODDOL
MERTHYR TUDFUL**

Canolfan Gweithredu
Gwirfoddol
89-90 Stryd Fawr,
Pontmorlais,
Merthyr Tydfil
CF47 8UH

Tel: 01685 353900
enquiries@vamt.net



www.vamt.net



Voluntary Action Merthyr Tydfil
Volunteer Centre Merthyr Tydfil
Digital Support Cwm Taf



@VAMTtweets
@VAMTvolunteer
@CwmTafCC



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**



Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales



RHAGAIR ODDI WRTH Y CADEIRYDD A'R PRIF WEITHREDWR

Rydym yn falch o gyflwyno'r unfed Adroddiad Blynyddol ar hugain gan Weithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful.

Un o uchafbwyntiau eithriadol y flwyddyn, yn sicr o ran proffil, oedd presenoldeb Michael Sheen OBE yn ein dathliad gwirfoddoli yn Red House. Roedd yn achlysur gwych a gafodd gryn dipyn o sylw'r cyfryngau traddodiadol a'r cyfryngau cymdeithasol. Rydym yn ddiolchgar i Michael am yr holl amser a dreuliodd yn y digwyddiad yn siarad â gwirfoddolwyr a phobl ifanc. Ceir sawl ffotograff o'r achlysur yn yr adroddiad hwn.



Mae GGMT yn parhau i gyflawni canlyniadau fel y gwelir yn yr adroddiad hwn. Yn ychwanegol at ein gwaith craidd yn cefnogi sefydliadau gwirfoddoli a'r trydydd sector, mae ein partneriaid wedi parhau i ariannu Cydlynwyr Cymunedol a Chynllun Grant Capasiti Cymunedol oddi wrth Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru. Cafodd y prosiectau hyn werthusiad da iawn. Ehangwyd y cynllun grant yn sylweddol eleni a chafodd arian ychwanegol ei sicrhau am ymgyfeillio a gwasanaethau awtistiaeth.

Trist nodi bod prosiectau Cymunedau yn Gyntaf Clwstwr y De a MAGNET wedi dod i ben eleni, ill dau yn llwyddiant ysgubol. Cafodd y ddau brosiect hyn ddathliad yn yr adroddiad blynyddol blaenorol.

Mae GGMT yn parhau i gydweithio ag Interlink a gweithio ynghyd ar weithgaredd rhanbarthol fel y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus newydd, gweithredu Deddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol a phrosiect cydlynwyr cymunedol a chynlluniau grant a ragnodwyd. Yn ystod y flwyddyn cawsom arian oddi wrth y Gronfa Datblygu Gwledig ar gyfer prosiect cefnogi digidol yn cynnwys y wardiau gwledig yn y ddwy sir.

Fel Cadeirydd a Phrif Swydddog rydym yn ymroddedig i sicrhau ein bod ni'n parhau yn sefydliad effeithiol. Dim ond â thîm ymroddedig o ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr y gallwn ni gyflawni hyn. Diolchwn iddyn nhw am eu cymorth a'u gwaith caled.

Yn olaf, rhaid i ni gymryd y cyfle i ddiolch i brif noddwyd GGMT am eu cefnogaeth barhaus; sef Llywodraeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Chronfa Fawr y Loteri. Hefyd diolch i Gyngor Cymru dros Weithredu Gwirfoddol am eu cefnogaeth barhaus.

Ian Davy,
Prif Swydddog

Brian Lewis,
Cadeirydd



FFEITHIAU A FFIGYRAU

Gwirfoddoli

Nifer o wirfoddolwyr a leolwyd **152**

Nifer o ymholiadau ar arferion da wrth reoli gwirfoddolwyr **42**

Llywodraethiant da

Nifer o ymholiadau ymddiriedolwyr a dderbyniwyd ac ymatebwyd iddynt **30**

Nifer o gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd **22**

Nifer o gyfranogwyr **243**

Ymgysylltu a dylanwadu

Nifer o gynllunio strategol / gweithgorau sy'n ymwneud ag aelodaeth o'r 3ydd sector **67**

Nifer o fforymau 3ydd sector neu rwydweithiau a gofnodwyd **9**

Nifer o gylchgronau a gyhoeddwyd **4**

Nifer a dderbyniwyd **374**

Nifer o sesiynau ymweld â'r wefan **43,647**

Cyfanswm nifer yr ymholiadau a dderbyniwyd ac a ymatebwyd iddynt **2,868**

Ariannu cynaliadwy

Nifer o ymholiadau cyngor ariannu a dderbyniwyd ac a ymatebwyd iddynt **50**

Nifer o ddigwyddiadau ariannu a drefnwyd **6**

Nifer o gyfranogwyr **70**

Swm yr ariannu a gafwyd gan y grwpiau fel y nodwyd yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl

£220,030

Nifer y sefydliadau newydd/ mentrau cymdeithasol neu wasanaethau newydd a ddatblygwyd **11**

Swm yr ariannu a ddarparwyd drwy grantiau/cynlluniau benthyg

£479,433



Aelodaeth

Cyfanswm aelodaeth **283**

RHAI UCHAFBWYNTIAU

Gwirfoddoli

- Cynhaliwyd digwyddiad uchel ei broffil **'Dathlu Gwirfoddoli'** yn Red House, Merthyr Tudful. Mynychwyd y digwyddiad gan 23 o grwpiau gyda chyfanswm o 120 o unigolion yn derbyn tystysgrifau a gyflwynwyd gan **Michael Sheen OBE**. Roy Noble MBE oedd yn arwain y digwyddiad.



- Cafodd 230 o **wirfoddolwyr** eu cyfweld
- Derbyniwyd 179 o ymholiadau am wirfoddoli drwy wefan **Gwirfoddoli Cymru**
- Derbyniodd 42 o sefydliadau gymorth ag **arferion da** wrth wirfoddoli
- Yn ystod **Wythnos Gwirfoddoli**, cynhaliwyd seremoni fach gyda 30 o wirfoddolwyr a oedd wedi derbyn tystysgrifau cydnabyddiaeth a gyflwynwyd gan Dawn Bowden AM a Gareth Chapman, Chief Executive, Merthyr Tydfil CBC.
- Darparwyd adnodd **allgymorth yng Nghanolfan Gwaith Merthyr Tudful** tan fis Rhagfyr 2017.
- Cynhaliwyd chwe **diwrnod recriwtio** llwyddiannus ar gyfer siopau elusen leol, RVS, Homestart, Merthyr Tydfil Ddiogelach, Victim Focus ac Ymddiriedolaeth Groundwork.
- Cafodd 27 o bobl ifanc eu recriwtio fel **Gwirfoddolwyr Mileniwm**. Cafodd un deg naw o Dystysgrifau Gwirfoddolwyr eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn, deg tystysgrif 50 awr, un ar ddeg tystysgrif 100 awr a thair tystysgrif 200 awr.
- Gweinyddwyd y **cynllun Grantiau a Arweinir gan Ieuenctid** mewn partneriaeth â Fforwm Ieuenctid Ledled Bwrdeistref Merthyr Tudful. Gwnaethon nhw ddyfarnu grantiau i'r cyfanswm o £2620 i Glwb Bechgyn a Merched Treharris, Clwb Nofio Merthyr Tudful a Chlwb Bechgyn a Merched Georgetown.
- Darparwyd **hyfforddiant rheoli gwirfoddolwyr** ar y cyd ag Interlink a oedd yn cynnwys chwech o fodiwlau mewn cwrs 4 dydd.



Arian Cynaliadwy

- Cefnogwyd **un deg pump** o sefydliadau gyda cheisiadau llwyddiannus gan dderbyn grantiau i'r cyfanswm o £220,030
- Hwyluso **cymhorthfa gyngor** ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr yn swyddfeydd GGMT. Gwnaethon nhw gwrdd â 35 grŵp yn y pum sesiwn a gynhaliwyd. Yn ychwanegol, cynhaliwyd **dau ddigwyddiad** i hyrwyddo'u cynlluniau newydd a'u dull gweithredu newydd tuag at asesu ceisiadau. **Cyngor** a hwyluswyd.
- Hyrwyddo'r **Gronfa Ddatblygu Gwledig** a darparwyd cyfleoedd i'r sector ymgysylltu wrth ddatblygu prosiectau newydd
- Hyrwyddo rhaglen ddiwygiedig **Teuluoedd yn Gyntaf** a darparu cyfleoedd i'r sector ymgysylltu yn natblygiad y rhaglen sy'n mynd yn ei blaen ac mewn cyfleoedd caffaeliad
- Darparwyd **gwasanaeth cyfrifeg ariannol** ar gyfer Merthyr Tudful ddiogelach fel prosiect peilot.
- Gweinyddwyd Cynllun Grant Capasiti Cymunedol o £240,000 ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector ar ran Gwasanaeth Cymdeithasol Cwm Taf a Bwrdd Partneriaeth Llesiant. Hyrwyddodd GGMT y cynllun, a chefnogi ymgeiswyr a chefnogi'r panel dyfarnu. Cafwyd 48 o ymgeiswyr gyda 12 prosiect yn cael eu cymeradwyo.
- Sicrhawyd £100,000 oddi wrth Wasanaethau Cymdeithasol Cwm Taf a'r Bwrdd Partneriaeth Llesiant fel bod sefydliadau'r trydydd sector yn darparu **gwasanaethau ymgyfeillachu**. Mae'r arian yn galluogi i amrywiaeth o wasanaethau cydweddus i gael eu cyflenwi gan bedwar sefydliad gwahanol (Age Connects Morgannwg, Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol, Plant y Cymoedd ac Mae Gwirfoddoli yn Cyfri).
- Sicrhawyd £70,000 o nawdd i weinyddu cynllun grant sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig** a lansiwyd yn ddiweddar yng Nghwm Taf. Cafodd panel dyfarnu ei hwyluso a dyfarnwyd arian grant i 7 prosiect. Bydd y prosiectau'n dechrau ym mis Ebrill 2018.
- Cyfranogi wrth gyflwyno **Gwobrau Tlws Grisial Cwm Taf** sy'n cydnabod y cyfraniad at lesiant gan sefydliadau'r trydydd sector. Mae'r broses hon yn diweddu mewn seremoni wobrwyo a derbyniodd tri sefydliad wobrau ariannol i gyfanswm o £2,250, gyda'r prif enillydd yn derbyn tlws "grisial" hefyd.



Llywodraethiant Da

- Derbyniodd 30 sefydliad **gyngor llywodraethiant** yn uniongyrchol a chefnogaeth eleni.
- Cyhoeddwyd pedwar rhifyn o gylchgrawn copi caled GGMT, **Inform**.
- **Cyfyngau Cymdeithasol**
 - ◆ Mae gan brif gyfrif Twitter GGMT sef @VAMTtweets 1582 o ddilynwyr a chafwyd 260 'like' ar dudalen Facebook GGMT.
 - ◆ Mae 623 'like' gan dudalen Facebook Canolfan Gwirfoddoli Merthyr Tudful a 584 o ddilynwyr gan Twitter @VAMTvolunteer.
 - ◆ Mae 184 'like' gan dudalen Facebook One Voice MT ac mae 152 o ddilynwyr gan Twitter @onevoicemt
 - ◆ Mae 256 'like' gan dudalen Facebook Cymunedau yn Gyntaf Clwstwr y De a 465 o ddilynwyr gan Twitter @c1stsouth
 - ◆ Mae cyfrif Twitter gan Gydlynwyr Cymunedol sef @CwmTafCC sydd â 151 o ddilynwyr.
- Cafodd 146 o bostiadau eu cyhoeddi ar **Flog "Newyddion GGMT"** a oedd wedi derbyn 28,811 o ymweliadau.
- Cynhaliwyd sesiwn ymwybyddiaeth **GDPR** ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector a mynychodd 20 o bobl.

- Darparwyd **Hyfforddiant Diogelu** ar lefelau 1 a 2. Cyflenwyd pedwar sesiwn hyfforddi lleol i 40 o gyfranogwyr. Yn ychwanegol, cyflenwyd 2 gwrs lefel 2 yn rhanbarthol i 62 o bobl.
- Datblygwyd **Polisi Diogelu Model** y gall grwpiau'r trydydd sector ei ddefnyddio mewn partneriaeth â Bwrdd Diogelu Cwm Taf. Y mae'n arbennig o ddefnyddiol i grwpiau llai.
- Datblygwyd prosiect **cefnogi digidol a sgiliau** yn dilyn cais llwyddiannus i Gynllun Datblygu Gwledig Cwm Taf am swydd ranbarthol yn cynnwys y 9 ward gwledig yng Nghwm Taf. Cyfanswm arian y grant yw £59,464. Bydd y swydd yn darparu cefnogaeth ddigidol a sgiliau a hefyd yn recriwtio gwirfoddolwyr i sefydlu cymynrodd o gefnogaeth barhaus ar gyfer cynhwysiant digidol.

Yn ystod y chwe mis cyntaf, cefnogwyd 22 o grwpiau cymunedol a chafwyd 3 sesiwn ymgysylltu cymunedol. Hefyd mynychodd 5 gwirfoddolwr hyfforddiant mentor cymheiriad a mynychodd 42 o bobl sesiynau hyfforddi a ddarparwyd drwy'r prosiect.





Ymgysylltu a Dylanwadu

- ◆ Parhaodd GGMT ac Interlink i gynnal **tîm o bump o Gydlynwyr Cymunedol** a oedd yn cefnogi pobl hŷn i ddefnyddio gwasanaethau cymunedol er mwyn cadw eu hannibyniaeth a gwella llesiant. Lleolir pedwar o'r Cydlynwyr yn lleol ac mae un yn canolbwyntio ar leoliadau gofal sylfaenol ledled Cwm Taf.

Yn ystod y flwyddyn maen nhw wedi:

- ◆ derbyn **1349 achos cyfeirio** sydd wedi arwain at 1157 cyfeirio pellach a 6610 **arwyddbyst** i wasanaethau a gweithgareddau ar draws y trydydd sector a gwasanaethau statudol hefyd.
- ◆ datblygu a dosbarthu **12 o fwletinau** i dros **1000 cyswllt**
- ◆ cyflwyno **133 o gyflwyniadau** i unigolion
- ◆ dynodi **95 grŵp newydd** yng nghymunedau Cwm Taf
- ◆ broceru mewn **31 o sefydliadau'r trydydd sector** i mewn i 21 Practis GP ar 79 achlysur.

Ym Merthyr Tudful, yn benodol, mae gwaith wedi cynnwys:

- ◆ cefnogi Grŵp Llywio "**Cymundau Cyfeillgar**"
- ◆ cyflenwi **hyfforddiant Cyfeillion Dementia Friends**

- ◆ gan arwain at fwy na 30 o bobl yn dyfod yn Gyfeillion Dementia yn eu cymunedau yn cefnogi **Fforwm 50+ Merthyr Tudful** ac ail-lansio'r Fforwm. Daeth dros 80 o bobl i'r digwyddiad

- ◆ gweithio mewn partneriaeth â **Phrosiect RISE** Chartrefi Cymoedd Merthyr. Ymwelwyd â 56 o denantiaid mewn 6 cynllun lloches gan arwain at 31 achos cyfeirio i sefydliadau'r trydydd sector
- ◆ trefnu digwyddiad ymgynghorol ar gyfer **Cynllun Teithio'n Rhatach** Gorfodol Llywodraeth Cymru. Mynychwyd y digwyddiad gan 15 aelod o'r cyhoedd
- ◆ cynyddu'r nifer sy'n cael brechlyn fflif drwy ddefnyddio model "**chwalu mythau**" fflif gyda chleifion unigol. Dangosodd ffigyrau ar gyfer Practis Meddygol Morlais gynnydd o 221 brechlyn a roddwyd i bobl dros 65 o'i gymharu â'r un cyfnod yn ystod y flwyddyn flaenorol ac i'r rhai iau na 65 roedd cynnydd o 62.





- ◆ cyflwyno 21 sgwrs **chwalu myth fflw** i Gynlluniau Tai Lloches gyda 100% gwerthusiad cadarnhaol oddi wrth 228 cyfranogwr.
- ◆ lledaenu prosiect peilot "**Mythau Gwrthfotigau**" i grwpiau cymunedol i alluogi 28 sesiwn gyda 423 o bobl.
- Hwyluso **Fforwm Sefydliadau Gwirfoddol Plant a Phobl Ifanc** yn chwarterol.
- Hwyluso'r **Fforwm Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant** sydd wedi cwrdd ar 6 achlysur gyda 137 yn bresennol.
- Cynnal **Rhwydwaith yr Amgylchedd a Gwagleodd Gwyrdd** â 49 yn bresennol yn dilyn cais gan aelodau VAMT i gynnal digwyddiad rhwydweithio/cynhadledd i grwpiau cymunedol sydd bennaf gysylltiedig â gwaith amgylcheddol a chadwraeth lleol. Cynhaliwyd ail gyfarfod gyda 32 o bobl yn bresennol.

- Cyflenwi prosiect **MAGNET (Llais Cymunedol)** am y pumed tro a'i flwyddyn olaf. Roedd y portffolio yn cynnwys saith prosiect a gyflenwyd gan sefydliadau'r trydydd sector. Cwblhawyd y gwerthusiad annibynnol olaf ac roedd yn gadarnhaol iawn. Cynhaliwyd digwyddiad dathlu a rhoddwyd bri mawr ar y portffolio yng ngwerthusiad Cronfa'r Loteri Fawr o'r Llais Cymunedol yn genedlaethol.
- Cyflenwyd prosiect **Un Llais** a oedd yn gweithio ag amrywiaeth o sefydliadau statudol a'r trydydd sector i arwain at newid i bobl ag anableddau.
- Cyfrannu at ddatblygu **Cynllun Llesiant Cwm Taf**.
- Cefnogi datblygiad cychwynnol **Parthau Cymunedol** o dan ymbarél 'Plant yn Gyntaf' LIC yn y Gurnos.
- Datblygwyd **Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Cwm Taf** gyda **Interlink** a chynhaliwyd cynhadledd ym mis Hydref. Yn dilyn lansiad llwyddiannus a chyfarfod dilynol cynhaliwyd digwyddiad ym mis Mawrth mewn cydweithrediad â Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru.

DATGANIAD GWEITHGAREDDAU ARIANNOL

(YN CYNNWYS Y CYFRIF INCWM A GWARIANT)

AR GYFER Y FLWYDDYN YN DOD I BEN 31 MAWRTH 2018

	2018			2017
	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfanswm	Cyfanswm
	£	£	£	£
Incwm				
Rhoddion a Chymyrrhoddion	2,000	-	2,000	4,700
Incwm o weithgareddau elusenol:				
Grantiau a chytundebau	190,542	1,149,989	1,340,531	1,675,099
Costau Rheoli	68,523	7,500	76,023	66,932
Incwm o weithgareddau masnachol eraill:				
Incwm rhent a llety	62,060	-	62,060	70,901
Ad-daliad Ffôn a Phost	4,507	-	4,507	9,375
Incwm Hyfforddi ac ariannol	14,714	-	14,714	270
Incwm buddsoddi	1,699	-	1,699	2,647
Incwm arall	5,260	11,849	17,109	11,750
Cyfanswm yr Incwm	349,305	1,169,338	1,518,643	1,841,674
Gwariant				
Gwariant ar weithgareddau elusenol	360,979	1,340,817	1,701,796	1,571,529
Cyfanswm y Gwariant	360,979	1,340,817	1,701,796	1,571,529
Incwm Net/(Gwariant) ar gyfer y flwyddyn	(11,674)	(171,479)	(183,153)	270,145
Trosgwyddiadau rhwng cronfeydd	490	(490)	-	-
Symudiad Net mewn cronfeydd	(11,184)	(171,969)	(183,153)	270,145
Cronfeydd a Ddygwyd Ymlaen	605,986	349,593	955,579	685,434
Cronfeydd a Ddygir Ymlaen	594,802	177,624	772,426	955,579

Mae'r datganiad gweithgareddau ariannol yn cynnwys enillion a cholledion y flwyddyn.

Mae pob incwm a gwariant yn deillio o weithgareddau parhaol.

MANTOLEN

HYD AT 31 MAWRTH 2017

	2018	2017
	£	£
Asedau Sefydlog		
Asedau diriaethol sefydlog	282,125	305,759
Asedau Cyfredol		
Dyledwyr	244,333	138,934
Arian yn y banc ac arian parod	558,910	679,403
	803,243	818,337
Dyledion		
Symiau fydd angen eu talu oddi fewn i'r flwyddyn	-	168,517
Asedau Cyfredol Net	490,301	649,820
Asedau Net	772,426	955,579
Cronfeydd		
Cronfeydd incwm anghyfngedig	594,802	605,986
Cronfeydd incwm cyfyngedig	177,624	349,593
Cyfanswm y Cronfeydd	772,426	955,579

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r darpariaethau sy'n gymwys i gwmnïau yn amodol ar gyfundrefn cwmnïau bach yn Rhan 15 Deddf Cwmnïau 2006 ac yn ffurfio'r cyfrifon blynyddol sy'n ofynnol gan Ddeddf Cwmnïau 2006 ac sydd i'w cylchredeg i aelodau o'r cwmni.

